Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer trafod y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Chwefror 2019

Ar 12 Chwefror 2019, cafodd Bil y Comisiwn, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 15 Ionawr 2019, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol er mwyn iddo drafod yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 12 Chwefror 2019, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen i'r Pwyllgor drafod egwyddorion cyffredinol y Bil a chytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 28 Mehefin 2019.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan i ystyried trafodion Cyfnod 2, ac y ddylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 11 Hydref 2019, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.